

To: Members of the Pwyllgor Craffu  
Partneriaethau

Date: 6 Chwefror 2025

Direct Dial: 01824 712554

e-mail: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Dear Councillor

You are invited to attend a meeting of the **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU** to be held at **10.00 am** on **DYDD IAU, 13 CHWEFROR 2025** in **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO.**

Yours sincerely

G. Williams  
Monitoring Officer

## **AGENDA**

### **1 YMDDIHEURIADAU**

### **2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 5 - 6)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2024 (copi ynghlwm).

### **5 DATBLYGU YSBYTY BRENHINOL ALEXANDRA (YBA)** (Tudalennau 15 - 20)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (copi ynghlwm) sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd a chynlluniau ar gyfer datblygu safle Ysbyty Brenhinol Alexandra, a cheisio adborth yr aelodau ar y cynigion

**10:10am – 11:00am**

**EGWYL - 11:00am - 11:15am**

**6 CYNLLUN CLUDIANT RHANBARTHOL DRAFFT** (Tudalennau 21 - 62)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Trafnidiaeth a Thrafnidiaeth (copi ynghlwm) yn rhoi trosolwg o'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol Drafft sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, ac fel rhan o'r ymgynghoriad sy'n ceisio barn y Pwyllgor ar ei gynnwys.

**11:15am – 12:00pm**

**7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 63 - 84)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen waith y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

**12:00pm – 12:20pm**

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Cael y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

**MEMBERSHIP**

**Councillors**

Y Cyngorydd Joan Butterfield  
(Cadeirydd)

Y Cyngorydd Pauline Edwards (Is-  
Gadeirydd)

Jeanette Chamberlain-Jones  
Kelly Clewett  
Bobby Feeley  
Jon Harland  
Brian Jones

Terry Mendies  
Arwel Roberts  
David Williams  
Elfed Williams

**COPIES TO:**

All Councillors for information  
Press and Libraries  
Town and Community Councils

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 19 Rhagfyr 2024 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield (Cadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones, Kelly Clewett, Bobby Feeley, Jon Harland, Brian Jones, Pauline Edwards (Is-Gadeirydd), Terry Mendies, Arwel Roberts ac Elfed Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Economi a'r Amgylchedd (TW), Pennaeth Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (PJ), Rheolwr Asedau a Risg (AR), Cydlynnydd Craffu (RE), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (ED a NH).

**Cyfoeth Naturiol Cymru** - Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Ddwyrain Cymru (LR), Rheolwr Gweithrediadau y Gogledd-ddwyrain (SP), Uwch Swyddog - Dulliau Rheoleiddio (TL)

**Dŵr Cymru** - Rheolwr Carthffosiaeth (MW), Rheolwr Cyswllt Ansawdd Afonydd (Gogledd) (EP).

**Siroedd Gogledd Cymru - Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol** - Swyddogion Cynllunio Rhag Argyfwng Helen Kilgannon (HK) a Madeleine Zalot (MZ)

**Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant** (yn bresennol ar wahoddiad y Pwyllgor) - Y Cynghorydd Barry Mellor.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Martyn Hogg, Gareth Sandilands, Rhys Thomas, Merfyn Parry, Mark Young

### 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd David Williams ac Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol, Y Cynghorydd Julie Matthews.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Gareth Sandilands gysylltiad personol gydag eitem 6 gan ei fod yn un o'r cynrychiolwyr a benodwyd gan y Cyngor ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

### 3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni thynnwyd sylw'r Cadeirydd at unrhyw eitemau brys cyn dechrau'r cyfarfod.

### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2024. Felly:

***PENDERFYNODD y Pwyllgor: y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2024 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.***

Materion yn codi: Roedd eitem fusnes 5, 'Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 – Storm Babet': copi o'r ohebiaeth a anfonwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i'r Cynghorydd Arwel Roberts mewn ymateb i'w ymholiad ar derfynau amser yr ymchwiliad ar gyfer y byndiau ar hyd afon Clwyd yn ardaloedd Rhuddlan a'r Rhyl wedi ei gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth fel rhan o'r ddogfen 'Briff Gwybodaeth' cyn y cyfarfod.

## **5 STATWS BANER LAS I DRAETHAU SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i'r aelodau. Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i'r cyfarfod i gyfrannu at y drafodaeth ac ateb cwestiynau'r Aelodau. Diolchodd yr Aelod Arweiniol i swyddogion am eu presenoldeb yn y cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn galluogi Aelodau i graffu ar y gwaith sy'n cael ei wneud gyda sefydliadau partner mewn cais i ennill achrediad statws Baner Las ar gyfer cynifer ag sy'n bosibl o draethau'r sir. Pwysleisiwyd y byddai'n anodd iawn i'r Rhyl gael statws Baner Las gan ei fod mor agos i aber afon Clwyd ac effeithiau'r llanw sy'n dod i mewn. Cafodd y rhwystrau a'r heriau sy'n wynebu'r Rhyl o ganlyniad i hyn eu hamlinellu yn y cyflwyniadau a roddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru fel y rhesymau pam roedd traethau Prestatyn wedi symud o ansawdd dŵr rhagorol i ansawdd dŵr da gan arwain at dynnu ei statws Baner Las.

Arweiniodd yr Uwch Swyddog: Dulliau Rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru aelodau drwy gyflwyniad ar Statws y Faner Las ar gyfer Traethau Sir Ddinbych. Arweiniwyd Aelodau drwy'r broses ddosbarthu a ddefnyddir i benderfynu ansawdd y dŵr ar draethau.

Yn 2015 fe ddaeth y broses ar gyfer profi ansawdd dŵr yn fwy llym gyda samplau yn cael eu hasesu ar gyfer bacteria E Coli ysgarthol ac Enterococci Perfeddol. Dangoswyd graffiau manwl i Aelodau yn cynnwys y canrannau o facteria a oedd wedi eu darganfod mewn dŵr dros y blynyddoedd blaenorol. Os oedd y data Darogan a Thynnu yn cofnodi mwy na dau ddiwrnod dilynol o ansawdd dŵr gwael yna nodwyd fod y dŵr yn anaddas i ymdrochi ynddo. Mewn achosion o'r fath byddai Cyngor Sir Ddinbych yn gosod arwyddion erbyn 10am yn rhybuddio'r cyhoedd fod y dŵr wedi ei ddosbarthu fel dŵr anaddas ar gyfer ymdrochi.

Eglurwyd yr effeithiau ar ansawdd dŵr yn Y Rhyl gan gynnwys gwaith carthffosiaeth, gorsafoedd pwmpio a charthffos yn gorlifo ynghyd ag effeithiau amaethyddol fel da byw yn cael at nentydd a thaenu ar y tir a oedd i gyd wedi arwain at oblygiadau o ran ansawdd y dŵr ar draethau'r Rhyl.



O ran y dyfodol roedd gan Gyfoeth Naturiol Cymru nifer o gynlluniau mewn grym i geisio gostwng y bacteria amaethyddol sy'n arllwys i'r system ddŵr, sef y rheoleiddio parhaus o ran gollyngiadau a ganiateir, Canllaw dosbarthu Gorlif Storm a'r sylw parhaus a roddir i leihau ffynonellau bacteria amaethyddol. Cafodd datrysiadau mwy hirdymor eu hamlinellu a'u hegluro. Fodd bynnag byddai angen cynnydd sylweddol mewn cyllid gan y llywodraeth ganolog ar gyfer cynlluniau amaethyddol er mwyn darparu anogaeth i ffermwyr i osod cynlluniau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Uwch Swyddog: Dulliau Rheoleiddio am gyflwyniad Cyfoeth Naturiol Cymru.

Arweiniodd Swyddog Cyswllt Ansawdd Afonydd o Dŵr Cymru yr Aelodau drwy gyflwyniad ar ansawdd dŵr ymdrochi.

Roedd Dŵr Cymru yn diheintio'r garthffrwd ger dyfroedd ymdrochi, ond nid dyma'r drefn arferol ar gyfer afonydd. Roedd hyn yn helpu i gynnal yr ansawdd ar gyfer ymdrochi. Roedd gwaith trin dŵr gwastraff Dinbych, Dyserth, Llanelwy a Llanasa i gyd yn derbyn triniaeth UV. Roedd Dŵr Cymru yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i wneud rhagor o welliannau a lle nodwyd y rhain byddent yn dod yn rhan o'u cynlluniau buddsoddi pum mlynedd. Hefyd cynhaliodd Dŵr Cymru ymchwiliadau i ansawdd dŵr ymdrochi mewn ardaloedd lle gall eu hasedau gyfrannu at leoliadau statws gwaeth.

Rhoddyd manylion i Aelodau ar orlif dŵr yn ardal traethau'r Rhyl a Phrestatyn. Dros y tymor ymdrochi roedd gorlifoedd storm yn gollwng ar ddau ddiwrnod enghreifftiol gyda thywydd eithriadol o wlyb a gofnodwyd gan y Swyddfa Dywydd hefyd wedi cyfrannu at ganlyniadau gwael o ran dŵr ymdrochi.

Cwblhaodd Dŵr Cymru astudiaeth Dyfroedd Ymdrochi Arfordirol ar gyfer Y Rhyl a Phrestatyn yn 2017 a nododd mai ffynonellau llygredd gwasgaredig oedd y prif ffactor dros effeithio ar ansawdd dŵr ymdrochi. Gofynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru am gymorth pellach gan Dŵr Cymru i gynyddu'r ddealltwriaeth o ffynonellau gwasgaredig ac felly allbwn y Rhaglen Amgylcheddol Naturiol er mwyn i Dŵr Cymru gwblhau astudiaeth dŵr ymdrochi arall ar gyfer 2020-2025. Eglurwyd y data ansawdd dŵr o'r astudiaethau a wnaed yn fanwl i Aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Cyswllt Ansawdd Afonydd am gyflwyniad Dŵr Cymru a chroesawyd cwestiynau gan yr Aelodau.

Cwestiynodd Aelodau y strategaethau a oedd mewn grym ar gyfer gorsafoedd pwmpio a phibellau all-lif. Nododd y Rheolwr Carthffosiaeth fod gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud yn rheolaidd ar hyd a lled y sir. Roedd gorsafoedd pwmpio yn cael eu harchwilio yn wythnosol o leiaf gyda rhai mewn ardaloedd arfordirol a oedd yn fwy agored i gael eu hatal gan dywod yn cael eu harchwilio'n fwy aml. Hefyd glanhawyd y pibellau yn aml. Roedd gan Dŵr Cymru lawer o wybodaeth yn ymwneud â'i holl isadeiledd ac roedd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i reoli ei isadeiledd ar sail risg. Roedd Deallusrwydd Artiffisial hefyd nawr yn dod i'r amlwg o ran rheoli gorlif storm. Pwysleisiodd swyddogion mai systemau'r afonydd ac nid

asedau Dŵr Cymru oedd ffynhonnell rhan helaeth y llygredd a oedd yn mynd i mewn i'r môr.

Gofynnodd Aelodau a oedd cyllid yn broblem yn yr hinsawdd bresennol. Nododd y Rheolwr Carthffosiaeth nad oedd cyllid yn broblem ar hyn o bryd.

Amlygodd Aelodau yr angen am bartneriaeth waith gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a ffermwyr gan holi pa fentrau oedd mewn grym i annog ffermwyr i weithio ochr yn ochr â'r cynlluniau. Nododd yr Uwch Swyddog: Dulliau Rheoleiddio nad oedd yna unrhyw fentrau mewn grym ar hyn o bryd ar gyfer ffermwyr. Nid oedd yna unrhyw reoliadau mewn grym yn atal da byw ar ffermydd rhag defnyddio neu fynd i afonydd. Fodd bynnag, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio'n agos gyda pherchnogion glannau afonydd i annog gosod ffensys ar lannau afonydd a chanfod ffynonellau dŵr eraill i dda byw eu defnyddio. Roedd y mater o gyllid posibl wedi ei godi gyda Llywodraeth Cymru fodd bynnag nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael i awgrymu fod hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Gofynnodd Aelodau gwestiynau yn ymwneud â thraethau, afonydd, ffosydd/systemau draenio, yn ogystal â materion cynllunio yn ymwneud â'u wardiau penodol. Awgrymwyd fod y cwestiynau hyn yn cael eu hateb yng nghyfarfodydd Grŵp Ardal yr Aelodau a oedd yn cael eu cynnal i drafod materion yng ngwahanol ardaloedd y sir. Cytunodd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i fynychu cyfarfodydd Grŵp Ardal yr Aelodau i'r diben hwn, yn ddibynnol ar fod pob Grŵp Ardal Aelodau yn darparu briff manwl iddynt ar y materion lle roedd angen eu mewnbwn. Byddai hyn yn sicrhau fod y swyddogion mwyaf priodol yn bresennol er mwyn darparu atebion cynhwysfawr i'r cwestiynau a fyddai'n cael eu codi. Dywedodd y ddau sefydliad wrth Aelodau am annog preswylwyr i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau o lygredd, cyflenwad wedi byrstio, llifogydd ayb drwy ddefnyddio eu llinellau cymorth gan mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol iddynt ymateb i ddigwyddiadau ac i wella gwasanaethau yn y dyfodol.

Ar ddiwedd trafodaeth fanwl diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru am fynychu'r cyfarfod i roi eu cyflwyniadau llawn gwybodaeth ac am ddarparu atebion cynhwysfawr i'r ystod eang o gwestiynau gan Aelodau. Felly:

**Penderfynwyd: yn amodol ar yr uchod i –**

- (i) gydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr holl sefydliadau partner yn ymwneud â gwella ansawdd dŵr ymdrochi yn Sir Ddinbych, gan gynnwys rôl benodol pob partner mewn perthynas â chael achrediad statws Baner Las ar gyfer cynifer â phosibl o draethau'r sir; a**
- (ii) chydnabod parodrwydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i fynychu unrhyw rai o gyfarfodydd Grŵp Ardal Aelodau'r Cyngor i drafod meysydd penodol/lleol o ddiddordeb neu bryder yn ddibynnol ar fod pob Grŵp Ardal Aelodau yn darparu briff clir i'r sefydliadau ymlaen llaw ar y materion maent yn dymuno eu trafod.**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio Rhag Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru 2023/24 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i Aelodau.

Diben yr adroddiad oedd i hyrwyddo Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio Rhag Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru a rhoi hyder i Aelodau fod Sir Ddinbych yn barod pe byddai yna argyfwng. Sicrhaodd Gwasanaeth Cynllunio Rhag Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru fod trefniadau sylweddol ar waith mewn perthynas â chynllunio rhag argyfwng o fewn y Cyngor ac mae'r adroddiad yn nodi'n benodol:

- Sut mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn cyfrannu at wytnwch a diogelwch cymunedau yn Sir Ddinbych.
- Rhaglen waith bresennol y Gwasanaeth.
- Y strwythur yng Nghyngor Sir Ddinbych i ymateb i argyfwng neu achos brys.
- Darpariaeth cynllunio rhag argyfwng y tu allan i oriau.
- Hyfforddiant a Datblygu i staff mewn rolau Cynllunio Rhag Argyfwng.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cydweithio mewn partneriaeth ers sefydlu Gwasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru yn 2014.

Mae'r Gwasanaeth yn ymgymryd â swyddogaethau'r Cynghorau o ran argyfyngau sifil posibl ac mae'n atebol i Fwrdd Gweithredol sy'n cynnwys uwch swyddogion o'r Cynghorau hynny. Mae Gwasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth i sicrhau fod Awdurdodau Lleol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Argyfyngau Sifil Posibl, 2004
- Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr, 2015
- Rheoliadau Diogelwch Piblinellau, 1996
- Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth i'r Cyhoedd), 2019

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi'r gwaith y mae Gwasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes am yr adroddiad a chroesawyd cwestiynau gan yr Aelodau.

Wrth ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd fod disgwyl i adroddiad Grŵp Cau Pontydd Afon Menai fod ar gael erbyn diwedd y flwyddyn adrodd bresennol. Hefyd amlinellodd ran Gwasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru yn y broses o reoli traffig wedi i borthladd Caergybi gau yn annisgwyl o ganlyniad i'r difrod a achoswyd gan Storm Darragh.

Holodd Aelodau a ddylai'r Cyngor fod yn monitro bygythiadau a oedd yn digwydd o amgylch y byd a gofynnwyd a oedd y broses gynllunio ar gyfer argyfyngau posibl yn ymgorffori'r bygythiadau newydd hyn wrth i'r byd ddod yn fwy ansefydlog.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes fod yna Gofrestr Risg ac Asesiad ar gyfer y DU a Chymru gyfan a oedd yn nodi'r holl gynlluniau sydd mewn grym ar hyn o bryd. Roedd cynlluniau mewn grym ar gyfer ymosodiadau seibr posibl ac argyfyngau'n ymwneud â newid hinsawdd. Eglurodd y Swyddog Cynllunio Rhag Argyfwng ymhellach fod y tîm yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a oedd wedyn yn hysbysu'r Fforwm Cydnerthedd Aml-Asiantaeth a oedd yn edrych ar sut roedd risgiau i ddod yn cael eu lliniaru'n rhanbarthol. Roedd cynllunio ar gyfer sefyllfaoedd o argyfwng yn llawer mwy na dim ond ymagwedd ranbarthol a lleol, roedd yna hierarchaeth cynllunio rhag argyfwng mewn grym. Yn ddibynol ar natur y risg byddai Llywodraeth y DU a/neu Llywodraeth Cymru yn nodi'r risgiau a mesurau lliniaru cenedlaethol. Byddai hyn wedyn yn cael ei fwydo i wasanaethau cynllunio rhag argyfwng rhanbarthol i lunio mwy o fesurau lliniaru lleol a chynlluniau lleol i ymateb i'r argyfyngau amrywiol os ydynt yn digwydd. Mae'r cofrestrau risg rhanbarthol yn cynnwys risgiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Roedd disgwyl i Gofrestr Risg Gogledd Cymru gael ei chyhoeddi ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn y dyfodol.

Gofynnodd Aelodau a oedd y Cyngor yn barod ar gyfer unrhyw argyfyngau mewn perthynas â'r adnoddau oedd ar gael yn yr hinsawdd ariannol bresennol a holwyd sut y gallai Aelodau gael eu hyfforddi i ymdrin â'r sefyllfa pe bai'n codi.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes fod y Cyngor mor barod â phosibl. Roedd gan Aelodau lawer o wybodaeth yn ymwneud ag unrhyw argyfyngau drwy gyfarfodydd y Cyngor, negeseuon e-bost a gâi eu cylchredeg ac amrywiaeth o ffurflenni cyfathrebu. Byddai hyfforddiant ymwybyddiaeth gyffredinol yn edrych ar y systemau cynllunio rhag argyfwng a oedd mewn grym yn cael ei ystyried yn dilyn y cyfarfod gyda chyfranogiad yr Aelod Arweiniol.

Nododd y Swyddog Cynllunio Rhag Argyfwng fod sesiwn frifio wedi ei darparu i Aelodau yn flaenorol ym Mai 2022 ac roedd Llawlyfr Aelodau wedi ei greu ar yr adeg honno ac wedi ei gylchredeg. Roedd y Tîm Cynllunio Rhag Argyfwng yn hapus i ddarparu unrhyw hyfforddiant pellach a oedd ei angen. Cynigodd swyddogion i ail gylchredeg y llawlyfr yn ogystal â dolenni wedi eu diweddarau i Aelodau.

Trafododd Aelodau y posibilrwydd am i restr wirio yn cynnwys gwybodaeth gyswllt mewn argyfwng gael ei chylchredeg. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes y byddai'n cydgysylltu gyda'r Tîm Cynllunio mewn Argyfwng ac yn trafod hyn ymhellach, gan ychwanegu y byddai yn fuddiol i Aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes a'r Swyddogion Cynllunio Rhag Argyfwng am eu presenoldeb yn y cyfarfod.

Felly:

**penderfynodd y pwyllgor: yn amodol ar yr uchod a darparu'r wybodaeth ofynnol –**

- (i) ***gydnabod y gwaith a wnaed gan Wasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru yn ystod 2023/24 fel y nodir yn yr Adroddiad Blynyddol; a***
- (ii) ***chymeradwyo ymdrechion y Gwasanaeth yn lleol, rhanbarthol ac yn genedlaethol hyd yma yn ystod 2024/25 gyda'r bwriad o sicrhau fod trefniadau digonol mewn grym i ymateb a mynd i'r afael ag unrhyw argyfyngau a allai godi.***

## **7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Cydlynnydd Archwilio'r adroddiad a'r atodiadau (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei raglen waith.

Dywedwyd wrth Aelodau fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cadarnhau y byddant yn anfon cynrychiolwyr i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 13 Chwefror 2025 i roi'r cyfle i Aelodau i ofyn cwestiynau ar y cynnydd hyd yma gyda Phrosiect Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych. Yn ychwanegol byddai'r adroddiad ar Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref y Cyngor, a ohiriwyd o gyfarfod mis Hydref 2024 hefyd yn cael ei gyflwyno.

Yng nghyfarfod mis Tachwedd o Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu roedd adroddiad Archwilio Cymru o'r enw 'Gofal Brys ac Argyfwng - Llif Allan o'r Ysbyty' wedi ei gyfeirio at y Pwyllgor ar gyfer ystyriaeth bellach. Tra roedd hon yn astudiaeth genedlaethol, roedd ganddi oblygiadau lleol a rhanbarthol ac felly roedd Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r pwyllgor ystyried y cynnydd a wnaed hyd yma mewn gweithredu argymhellion yr astudiaeth. Gan mai amcan yr argymhellion oedd fod yr holl bartneriaid yn cydweithio'n effeithiol er budd y preswylwyr, byddai'n synhwyrol i gael cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd, y Cyngor a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru'n bresennol ar gyfer y drafodaeth. Roedd yr eitem felly wedi ei gosod yn rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer ei gyfarfod yn Ebrill 2025.

Gan fod Sir Ddinbych yn gweithredu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion wedi penderfynu y byddai o fudd cynnal cyfarfod anffurfiol ar y cyd o Bwyllgor Craffu Partneriaethau Sir Ddinbych a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Conwy er mwyn archwilio'r cynnig a wnaed hyd yma gan yr holl bartneriaid o ran gweithredu'r argymhellion o ganlyniad i archwiliad Arolygiaeth Prawf EF o'r gwasanaeth. I'r diben hwn, roedd cyfarfod anffurfiol ar y cyd o'r ddau Bwyllgor wedi ei drefnu ar gyfer dydd Mawrth 18 Mawrth 2025. Byddai'n cael ei gynnal o bell drwy fideo gynadledda gyda'r cofnodion yn cael eu cyflwyno i bwyllgor ffurfiol priodol pob Cyngor ar gyfer eu cadarnhau.

Dywedwyd wrth Aelodau fod cyfarfod nesaf Grŵp y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion i'w gynnal ar 20 Ionawr 2025 a thynnwyd eu sylw at Atodiad 2 a oedd yn cynnwys ffurflen Gynnig Archwilio'r Aelodau a oedd i'w chwblhau a'i dychwelyd erbyn dechrau Ionawr os oedd gan Aelodau unrhyw bynciau yr hoffent iddynt gael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys yn rhaglen waith y pwyllgor archwilio yn y dyfodol.

Felly:

**penderfynodd y Pwyllgor: yn ddibynnol ar yr uchod gadarnhau ei raglen waith fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.**

## **8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Darparodd y Cynghorydd Bobby Feeley drosolwg o'r cynnydd a wnaed hyd yma gyda Chanolfan Asesu Plant Is-ranbarthol Bwthyn y Ddôl ym Mae Colwyn. Hyd yma roedd cofrestriad Arolygiaeth Gofal Cymru wedi ei roi ar gyfer canolfan 4 gwely. Roedd angen gwaith ychwanegol a llenwi dwy swydd arall cyn y gellid caniatáu cofrestru unrhyw welyau eraill. Roedd yr holl faterion a oedd yn weddill nawr wedi eu huwchgyfeirio i sylw'r Prif Weithredwr ac roedd disgwyl iddynt gael eu datrys yn y dyfodol agos. Felly:

**penderfynodd yr Aelodau: dderbyn y wybodaeth a ddarparwyd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30pm

<b>Adroddiad at y</b>	<b>Pwyllgor Craffu Partneriaethau</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	<b>13 Chwefror 2025</b>
<b>Aelod/Swyddog Arweiniol</b>	<b>Cynghorydd Elen Heaton</b>
<b>Pennaeth y Gwasanaeth</b>	<b>Nicola Stubbins (CSDd) a Gareth Evans (BIPBC)</b>
<b>Awdur yr Adroddiad</b>	<b>Steph O'Donnell (BIPBC)</b>
<b>Teitl</b>	<b>Datblygu Ysbyty Brenhinol Alexandra (YBA)</b>

## **1. Beth yw testun yr adroddiad?**

1.1. Mae'r adroddiad yn rhannu gwybodaeth am gynnydd a chynlluniau i ddatblygu safle Ysbyty Brenhinol Alexandra (YBA) yn y Rhyl.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1. Diben yr adroddiad yw cynnig diweddariad ynghylch cynnydd a chwmpas y gwaith i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1. Y dylid hysbysu'r Pwyllgor am gwmpas y gwaith, yr amserlen a'r cyllid sydd ar gael.

3.2. Y dylai'r cyfarfod gael cyfle i gynnig adborth a dylanwadu ar y datblygiad.

## **4. Manylion yr Adroddiad**

### **Cwmpas y Gwaith a'r Cynllun**

4.1. Cynigir darparu gwasanaethau newydd ynghyd â gwasanaethau cynnal wedi'u hail-leoli a'u hehangu o adeilad clinigol newydd. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys adnewyddu adeilad presennol YBA fel canolfan gymorth a bydd

rhywfaint o wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol i gleifion yn parhau yno, e.e. CAMHS a Ffisiotherapi.

4.2. Bydd yr adeilad clinigol newydd yn cynnwys:

- Uned Mân Anafiadau a Mân Anhwylderau (MIAU) newydd er mwyn symud y galw o Ysbyty Glan Clwyd a gwasanaethu pobl yn nes at eu cartref;
- Oddeutu 14 o welyau cymunedol (yn dibynnu ar gyfyngiadau'r cynllun) a wnaiff alluogi gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol i ddiwallu anghenion pobl leol;
- Gwasanaeth Radioleg wedi'i adleoli a'i ehangu;
- Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol wedi'i adleoli a'i ehangu;
- Hwb Trydydd Sector a phresenoldeb cryf gan y Trydydd Sector at ddibenion cynorthwyo cleifion;
- Gwasanaethau cynnal megis arlwy, cyfleusterau, derbynfa a mannau gorffwys ar gyfer staff.

4.3. Bydd yr adeilad presennol yn cael ei ailwampio, gan gynnwys:

- Atgyweirio'r lloriau a'r adeiladwaith allanol;
- Adnewyddu'r mannau sydd ddim yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd;
- Seilwaith trydan a gwresogi newydd;
- Lleoli'r Trydydd Sector yn agos at y Tîm Cymunedol;
- Posibilrwydd y gellir symud y gwasanaethau lechyd Rhywiol ac Orthoteg yno a'u ehangu (yn dibynnu ar gyfyngiadau'r cynllun a'r cyllid).

4.4. Bydd canolfan ynni newydd yn cael ei datblygu yn unol â chanllawiau cenedlaethol a lleol ynghylch datgarboneiddio.

4.5. Bydd lleoedd parcio ar gael oddi allan i'r safle yn ystod y gwaith adeiladu ac wedi hynny. Bydd y strategaeth adleoli sy'n cael ei datblygu yn cadarnhau nifer y lleoedd parcio y bydd eu hangen yn ystod cyfnod y gwaith adeiladu ac ar ôl i'r adeilad



newydd gael ei gomisiynu. Bwriedir ymgymryd â'r gwaith hwn yn Chwefror 2025. Mae cydweithwyr yn y Cyngor yn cynorthwyo â'r prosiect er mwyn gallu nodi safleoedd posibl:

4.6. Dyma'r dyddiadau posibl:

- **Mawrth - Awst 2025** - Cais cynllunio ar gyfer y safle
- **Mai 2025:** Cymeradwyaeth gan Fwrdd BIPBC dyluniad adeilad newydd ac yna ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru
- **Gorffennaf 2025:** Cymeradwyaeth gan fwrdd BIPBC ar gyfer adeilad presennol ac yna ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru
- **Awst 2025:** cyfanswm y dyluniad a diweddariad cost ar gyfer adnewyddu'r adeilad presennol (RIBA 3)
- **Chwarter 1 2026:** dechrau adeilad Newydd
- **Chwarter 2 2026:** dechrau adeiladu'r adeilad presennol

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022-2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae hwn yn brosiect partneriaeth a bydd yn cyfrannu at nifer o nodau allweddol y Cyngor, ac yn bennaf:

- Sir Ddinbych ffyniannus

Cynorthwyr â hynny trwy greu rolau newydd, yn ystod cyfnod y gwaith adeiladu ac at ddibenion rhedeg gwasanaethau newydd. Rydym yn cydweithio â'r Cyngor a Sir Ddinbych yn Gweithio i ddisgrifio a meintioli'r adenillion cymdeithasol yn sgil y buddsoddiad hwn.

- Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar

Nod allweddol y Bwrdd Iechyd yw darparu gwasanaethau yn nes at gartrefi pobl a chydweithio â'n partneriaid yn yr holl wasanaethau i sicrhau y canolbwytir ar lesiant parhaus ac atal anghenion.

- Sir Ddinbych wyrddach

Mae'r prosiect yn datblygu strategaeth ddatgarboneiddio at ddibenion adeiladu a chynnal a chadw'r safle.

- Sir Ddinbych decach, ddiogel a mwy cyfartal

Cynorthwyr â'r nod hwn trwy ddarparu gwasanaethau yn nes at gartrefi pobl yn y fro hon, sy'n cynnwys 2 o'r ardaloedd hynny yng Nghymru ble ceir amddifadedd cymdeithasol sylweddol.

## **6. Beth fydd cost y prosiect a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1. Ceir cyfyngiad o £60 miliwn o ran y cyfalaf sydd ar gael i gyflawni'r gwaith hwn, a rhaid i hynny hefyd gynnwys costau camau blaenorol y gwaith.
- 6.2. O safbwynt referniw, bydd darparu'r gwasanaethau newydd yn fforddiadwy yng nghyd-destun cyllid y Bwrdd Iechyd.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar les?**

- 7.1. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgymryd â'r Asesiad Integredig o Degwch ac rydym wrthi'n cyflawni'r camau allweddol.
- 7.2. Ar y cyfan, caiff lles pobl sy'n byw yn ardaloedd y Rhyl a Phrestatyn ei wella yn sgil gallu defnyddio gwasanaethau yn nes at y cartref a thrwy waith ar y cyd â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych i wella cydweithredu â'r Trydydd Sector a chyfeirio cleifion at wasanaethau.
- 7.3. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio â'i Grŵp Rhanddeiliaid Cydraddoldeb i bennu sut bydd y cynllun yn diwallu anghenion ystod o bobl â nodweddion gwarchoddedig.

## **8. Pa waith ymgynghori sydd wedi digwydd gyda'r Pwyllgor Craffu a gydag eraill?**

- 8.1. Rhennir manylion y cynnig â'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau ym mis Ionawr a gwneir hynny eto pan fydd yr adroddiad terfynol ar gael.
- 8.2. Hysbyswyd y Pwyllgor Craffu Partneriaeth am y datblygiad a'r cynllun newydd yn Chwefror 2024.
- 8.3. Bydd ymgysylltu rheolaidd â'r cyhoedd yn digwydd yn 2025, yn cynnwys stondinau yng Nghanolfan y Rhosyn Gwyn ar 27 Chwefror a 27 Mawrth, i

gasglu gwybodaeth am bryderon a sicrhau y cânt eu cyfrannu at y broses ddyllunio.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

9.1. Amherthnasol.

## **10. Beth yw'r risgiau ac a allwn ni wneud unrhyw beth i'w lleihau?**

10.1. Ceir risg sylweddol ynghylch cyflawni'r prif gynnyrch yn brydlon (atodiad i Achos Busnes Llawn 2021). Mae hyn yn sgil oedi presennol o ran clustnodi ffioedd i gaffael partneriaid cynllunio. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi uwchgyfeirio'r mater at sylw Gwasanaeth Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Llywodraeth Cymru. Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhyddhau rhywfaint o gyfalaf dewisol (ar ein menter ein hunain) er mwyn cynnal rhywfaint o'r momentwm.

10.2. Ceir risg o ran cymhlethdod yr Adleoli, yn cynnwys gofynion am leoedd parcio a llai o le yn y safle, o gymharu â Chynllun yr Achos Busnes Llawn yn 2020/21. Mae'r cynllunio strategol ynghylch yr Adleoli wedi cychwyn ac mae CSDd wedi nodi y bydd yn cynorthwyo ble bo hynny'n bosibl cyn gynted ag y gall y Bwrdd Iechyd feintoli ei ofynion (yn y Flwyddyn Newydd mae'n debyg).

## **11. Y grym i wneud y penderfyniad**

11.1. Ni ofynnir i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau wneud penderfyniad. Yn gyntaf, bydd y Bwrdd Iechyd yn cymeradwyo'r cynllun a'r Atodiad i Achos Busnes Llawn 2021 yn ystod cyfarfod ei brif fwrdd ym Mai 2025. Llywodraeth Cymru fydd yn gwneud penderfynu a ddylid cyllido'r prosiect.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adrodd i'r</b>	<b>Pwyllgor Craffu Partneriaethau</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	<b>13 Chwefror 2025</b>
<b>Swyddog / Aelod Arweiniol</b>	<b>Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant / Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad</b>
<b>Awdur yr Adroddiad</b>	<b>Rheolwr Traffig a Chludiant</b>
<b>Teitl</b>	<b>Cynllun Cludiant Rhanbarthol Drafft</b>

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am ddatblygiad parhaus Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru, fydd yn disodli *Cyd Gynllun Cludiant Lleol Gogledd Cymru 2015*.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. I roi trosolwg i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau o'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol Drafft yr ymgynghorir arno ar hyn o bryd am 12 wythnos. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 20 Ionawr 2025.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, wedi deall ac wedi ystyried y Gwerthusiad Lles Integredig (Atodiad A) fel rhan o'i ystyriaethau.
- 3.2. Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn rhoi sylwadau ar y Cynllun Cludiant Rhanbarthol Drafft.

## 4. Manylion yr adroddiad

### Cefndir

- 4.1. Yng Nghymru, mae gofyn i bob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig Iunio Cynllun Datblygu Strategol (CDS) a Chynllun Cludiant Rhanbarthol (CCRh) ar gyfer eu rhanbarth. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â datblygu *Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru*, sy'n cael ei ddatblygu gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ar y cyd â chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru.
- 4.2. Bydd *Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru* yn disodli *Cyd Gynllun Cludiant Lleol Gogledd Cymru 2015*. Bydd y Cynllun blaenorol yn parhau'n "fyw" nes bydd Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir i hynny ddigwydd yn haf 2025.
- 4.3. Diben y pedwar Cynllun Cludiant Rhanbarthol yw helpu i gyflawni'r uchelgeisiau yn Strategaeth Cludiant Cymru, Llwybr Newydd. Mae Cynllun Cyflawni Cludiant Cenedlaethol hefyd, fydd hefyd yn helpu i gyflawni Strategaeth Cludiant Cymru. Llywodraeth Cymru sydd wedi datblygu'r Cynllun Cyflawni Cludiant Cenedlaethol a bydd yn darparu prosiectau cefnffyrdd, prosiectau rheilffyrdd a pholisïau, prosiectau a mentrau cludiant o bwys cenedlaethol.
- 4.4. Mae Strategaeth Cludiant Cymru yn nodi'r weledigaeth ar gyfer system gludiant gynaliadwy, hygyrch, diogel ac effeithlon ar hyd a lled Cymru. Mae'n rhoi pwyslais penodol ar annog newid moddol i ffyrdd mwy gwyrdd o deithio.
- 4.5. Rhaid i bob Cynllun Cludiant Rhanbarthol gynnwys polisïau ar gyfer darparu Strategaeth Cludiant Cymru ar lefel ranbarthol a bydd ganddynt gylch bywyd o 5 mlynedd.
- 4.6. Rhaid i bob Cynllun gynnwys Cynllun Cyflawni hefyd yn nodi sut y bydd yr awdurdodau lleol yn darparu'r polisïau a nodir yn y Cynllun Cludiant Rhanbarthol o ran prosiectau a mentrau. Yn Sir Ddinbych, mae'r prosiectau sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun Cyflawni yn cael eu rhestru yn Atodiad B.

4.7. Mae Cynllun Cyflawni'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol yn bwysig oherwydd bydd yn cael effaith ar ba brosiectau sy'n cael arian grant Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd i ddod. Mewn geiriau eraill, os nad yw prosiect yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Cyflawni'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol, bydd ei siawns o lwyddo yn llawer iawn llai yn erbyn prosiectau eraill sy'n cystadlu am arian grant.

#### Datblygiad y Cynllun Cludiant Rhanbarthol

4.8. Mae Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio yn Uchelgais Gogledd Cymru wedi arwain datblygiad cychwynnol y Cynllun Cludiant Rhanbarthol, wrth i strwythur gweithredol y Cyd-bwyllgor Corfforedig gael ei sefydlu.

4.9. Yn y dyfodol, bydd CBS Conwy yn awdurdod arweiniol ar gyfer datblygu'r Cynllun ymhellach i'r cam cymeradwyo.

4.10. Mae'r ymgynghorwyr, Arup, wedi cael eu comisiynu i helpu i gydlynu'r mewnbwn gan y chwe awdurdod lleol ac i wneud tasgau penodol eraill sy'n gysylltiedig â llunio'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol, megis llunio *Adroddiad Cwmpasu Gwerthusiad Lles Integredig*.

4.11. Mae Uwch Swyddogion o'r chwe awdurdod lleol, yn cynnwys Sir Ddinbych, wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu polisiâu drafft y Cynllun, a'r Cynllun Cyflawni.

4.12. O ran Sir Ddinbych, mae'r Rheolwr Traffig a Chludiant wedi cydlynu mewnbwn i ddatblygiad y polisiâu drafft a phrosiectau gan swyddogion o wasanaethau a thimau gwahanol.

4.13. Mae Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant wedi bod yn rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol drwy Is-bwyllgor Cludiant y Cyd-bwyllgor Corfforedig, sy'n cynnwys arweinwyr portffolio cludiant/priffyrdd chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru.

4.14. Gellir gweld y Cynllun Cludiant Rhanbarthol Drafft drwy ddilyn y ddolen gyswllt ganlynol: [Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru](#).

4.15. Mae Atodiad C yn cynnwys Cwestiynau Cyffredin safonol a ddatblygwyd i gydfynd â'r ymgynghoriad ar y Cynllun Drafft.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Gweledigaeth Strategaeth Cludiant Cymru yw system gludiant gynaliadwy, diogel, effeithlon a gwyrddach. Bydd yr uchelgeisiau hyn yn cyfrannu at sawl blaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol yn enwedig; Sir Ddinbych ffyniannus; Sir Ddinbych wyrddach; Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgarg; a Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Bydd y prosiectau a mentrau yng Nghynllun Cyflawni'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol yn ddibynnol yn bennaf ar sicrhau arian grant Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae o leiaf saith grant gwahanol gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â phrosiectau cludiant, er eu bod ar gyfer dibenion penodol megis diogelwch y ffyrdd, teithio llesol neu gerbydau allyriadau isel er enghraifft. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud cyn hyn eu bod yn bwriadu cyfuno'r rhain i nifer lai o grantiau mwy yn y dyfodol.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1. Cynhaliwyd cam cwmpasu'r Asesiad o'r Effaith ar Les fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Cafodd yr ymgynghoriad ar y Cynllun Cludiant Rhanbarthol Drafft ei lansio ar 20 Ionawr 2025 a bydd yn parhau am 12 wythnos. Cynhelir yr ymgysylltu ar-lein yn bennaf, gan fod angen cynnwys rhanbarth Gogledd Cymru gyfan.

8.2. Yn ogystal â'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau, cyflwynwyd adroddiad i Sesiwn Friffio'r Cabinet ar 3 Chwefror 2025. Cynigir hefyd y dylid



cyhoeddi Nodyn Briffio i'r holl Gynghorwyr Sir ym mis Chwefror 2025 am y Cynllun Drafft.

- 8.3. Hefyd ym mis Chwefror 2025, rydym yn bwriadu ysgrifennu at holl glercod y Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned i roi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad cyhoeddus a sut y gallant ymateb yn uniongyrchol iddo.
- 8.4. Bydd yr adborth o Sesiwn Friffio'r Cabinet, Craffu a gan y Cynghorwyr Sir yn cael ei ystyried a'i grynhoi i ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad, fydd yn cael ei gyflwyno dan lythyr eglurhaol gan Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant.
- 8.5. Pan fydd yr adborth o'r ymgysylltiad wedi'i gasglu, bydd yn cael ei ystyried yn ofalus wrth i fersiwn terfynol y Cynllun Cludiant Rhanbarthol gael ei ddatblygu cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn hwyr yn y gwanwyn 2025.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

- 9.1. Bydd cyflawni prosiectau a mentrau Cyngor Sir Ddinbych sydd yng Nghynllun Cyflawni'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol yn ddibynnol yn bennaf ar sicrhau arian grant Llywodraeth Cymru, yn enwedig oherwydd y cyfyngiadau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, bydd angen i bob prosiect sy'n ceisio cyllid allanol (neu fewnol) gyflwyno Achos Busnes Ariannol i Grŵp Craffu Cyfalaf i'w gymeradwyo, cyn cyflwyno unrhyw geisiadau i Lywodraeth Cymru.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

- 10.1. Y risg fwyaf fyddai methu â chynnwys yr holl brosiectau cludiant rydym yn debygol o fod eisiau eu cyflawni yn ystod y 5 mlynedd nesaf yng Nghynllun Cyflawni'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol, gan fod angen gwneud hyn i sicrhau arian grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y prosiectau hynny. I helpu i liniaru'r risg hon, rydym wedi ymgynghori â chydweithwyr i sicrhau bod y prosiectau priodol yn cael eu cynnwys. Bydd yr ymgysylltu sydd ar y gweill hefyd yn rhoi cyfle pellach i roi sylwadau a thrafod y prosiectau sy'n cael eu cynnwys.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1. Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol ac Adran 7.4.1 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â datblygu ac adolygu polisi.



# North Wales Regional Transport Plan

## Integrated Wellbeing Appraisal Non-Technical Summary

(Draft)





# Integrated Wellbeing Appraisal

## Non-Technical Summary

### Contents

1.	Non-Technical Summary	1
1.1	Purpose of the Non-Technical Summary	1
1.2	What is the North Wales Regional Transport Plan (NWRTP)?	1
1.3	What is the Integrated Wellbeing Appraisal (IWBA)?	2
1.4	Engagement and consultation	2
1.5	Scope of the IWBA	3
1.6	IWBA objectives	3
1.7	Appraisal scoring	7
1.8	Appraisal outcomes	8
1.9	Wales's Wellbeing Ambitions	14
1.10	Recommendations	21
1.11	Monitoring and evaluation	24



# 1. Non-Technical Summary

## 1.1 Purpose of the Non-Technical Summary

This document presents a summary, in non-technical language, of the Integrated Wellbeing Appraisal (IWBA) of the draft North Wales Regional Transport Plan (NWRTP).

## 1.2 What is the North Wales Regional Transport Plan (NWRTP)?

The NWRTP aims to solve transport problems in the North Wales area over the next 5 years (2025 - 2030). It will guide decisions on where to invest to address current and future local and regional transport issues. The plan shows how transport can support the delivery of the Llwybr Newydd, The Wales Transport Strategy and encourages growth and regeneration of the region.

The NWRTP includes policies to support the vision and ambitions of Llwybr Newydd, The Wales Transport Strategy.

A Monitoring and Evaluation Plan has been developed alongside the NWRTP to help ensure transport and climate change targets are met, while also contributing to measures set out in the Wales Transport Strategy Monitoring Framework.

The NWRTP should be read alongside the Regional Transport Delivery Plan (RTDP) which sets out local authority schemes that will be progressed to help deliver the NWRTP.

### 1.2.1 The vision

The vision that has been developed for the NWRTP states:

*'North Wales will have a safe, sustainable, affordable, resilient, and effective integrated transport network that supports economic growth, prosperity and well-being'.*

The vision is supported by four objectives, which will help monitor and evaluate the success of NWRTP:

- 1. Improve digital connectivity and local services:** We will enable 30% or more of people in North Wales to work remotely by 2030 through better land use planning and improved digital connectivity, which should reduce the overall need to travel and enable shorter trips better suited to sustainable modes.
- 2. Improved accessibility and transport choice:** We will develop infrastructure and services that provide people with a choice about how they travel for each journey and support sustainable economic growth through improved access to key settlements, employment, educational sites and tourist attractions. The accessibility of each key trip attractor should be improved, supporting the national mode share target of 45% of journeys to be undertaken by walking, wheeling, cycling and public transport by 2040.
- 3. Enable decarbonisation through transition to a zero-emission fleet:** We will develop supporting infrastructure and support incentives to enable at least 50% of motor vehicles and all public buses operating in North Wales to be zero emission by 2035.
- 4. Enable Sustainable Economic Growth:** We will develop a resilient, safe, well-maintained, and efficient transport network that delivers sustainable economic growth by improving accessibility to existing and planned employment areas. At least 50% of households in North Wales will have an increased range of travel within 1 hour by public transport, supporting access to key employment sites and regional centres by 2030.



### 1.2.2 Transport policies

The draft policies that have been developed for the NWRTP are based around policy themes which include:

- Enabling changes to travel behaviour
- Bus
- Coach, demand responsive and community transport
- Walking, wheeling and cycling
- Integration between modes
- Ports and freight
- Roads, streets, and parking
- Surface access to aviation
- Digital connectivity
- Land use planning

There are two further policy themes including rail and the strategic road network (including A roads). However, Ambition North Wales and local authorities have no direct control over these areas so there are no explicit policies in the NWRTP but aspirations instead.

### 1.3 What is the Integrated Wellbeing Appraisal (IWBA)?

Any transport policies, plans and programmes funded by the Welsh Government must include an integrated well-being appraisal that shows how it promotes well-being in Wales, contributing to the four well-being ambitions and the specific targets for transport. The IWBA guidance set out as part of Welsh Transport Appraisal Guidance (WelTAG) identifies a set of four questions to be asked when developing policies or projects. These are listed below along with topics that are considered under each of the questions:

1. How will it benefit **people** and **communities**? (equality, health and safety and confidence)
2. How will it benefit the **environment**? (reducing carbon emissions, benefitting biodiversity and ecosystems resilience and reducing waste)
3. How will it benefit **places** and the **economy**? (place-making, innovation, freight)
4. How will it benefit **culture** and the **Welsh language**? (arts and sport, the historic environment and opportunities to use and promote the Welsh language)

IWBA can be used for assessing the potential social, cultural, economic, and environmental impacts of a plan, and places sustainable development at the centre of decision making. It does not replace the need for statutory assessments (such as those required by the law) and so the IWBA is supported by different impact assessments including those relating to the environment, well-being, Welsh language, children's rights, equality, natural resources, health, rural proofing, climate change and ecology / habitats.

### 1.4 Engagement and consultation

The NWRTP adopts a collaborative and involved approach, considering the requirements of the Wellbeing of Future Generations (Wales) Act. Engagement with stakeholders has helped shape the NWRTP, for example the Welsh Government, local authorities and Transport for Wales have told us about what they want to see for the transport system in North Wales.

An IWBA scoping report was prepared and submitted to statutory consultees (including Natural Resources Wales and Cadw) for a 5-week period from 15<sup>th</sup> October until 19<sup>th</sup> November 2024. The scoping report outlined an approach to the impact assessments as part of the IWBA, the baseline data, relevant international, national and regional plans, policies and sustainability objectives, and the assessment methodology. It also suggested IWBA objectives to set a framework for assessment (the IWBA Framework).

The IWBA is submitted alongside the draft NWRTP for consultation for a period of 12 weeks (from 20 January to 14<sup>th</sup> April 2025).





- **Well-being Goals:** The Wales Transport Strategy’s (WTS) well-being ambitions are closely tied to the goals of the Well-being of Future Generations Act 2015. This legislation emphasises long-term well-being, environmental protection, and social progress.
- **Statutory assessments** – the appraisal objectives have been developed to encompass the requirements of the statutory assessments outlined in Section 1.3 above and their relevant regulations.

In summary, the IWBA Framework provides a structured approach to ensure that the NWRTP aligns with broader well-being goals and contributes to sustainable development in North Wales.

Each of the questions outlined in Section 1.3 have been answered considering the IWBA objectives to consider a wide range of potential effects of the NWRTP policies. [Table 1](#) identifies which IWBA objective is of relevance to each of the IWBA topics scoped into the appraisal, as well as which WTS ambition they aim to address.

**Table 1 - IWBA objectives, appraisal questions and how they align with each IWBA topic and overarching theme**

IWBA Objective	How will we test if the objective has been met? Will the NWRTP.....	Relevant IWBA Topic	WTS ambition alignment
1. Support the delivery of housing and local services to meet the needs of local communities	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Support the creation of communities which offer viable and sustainable transport options within and between locations?</li> <li>• Improve access to local services?</li> </ul>	Population Human health Infrastructure Economy	People and Communities
2. Reduce inequality and promote community cohesion	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Improve environmental conditions and quality of life for the most deprived communities?</li> <li>• Support the needs of members of society who have protected characteristics?</li> <li>• Improve the accessibility of public transport and active travel for all members of society?</li> <li>• Engage with stakeholders, partners and local communities?</li> <li>• Create opportunities for community participation?</li> <li>• Support the transport needs of children?</li> </ul>	Population Human health Cultural heritage Transport Economy	People and communities





IWBA Objective	How will we test if the objective has been met? Will the NWRTP.....	Relevant IWBA Topic	WTS ambition alignment
3. Improve the health and wellbeing of the local population, including with respect to physical and mental health	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Encourage uptake in active travel?</li> <li>• Improve connectivity between local communities, particularly within rural areas?</li> <li>• Reduce social isolation?</li> <li>• Reduce physical damage and improve the safety of transport services and infrastructure?</li> <li>• Improve access to key health services?</li> <li>• Improve access to recreation activities?</li> <li>• Improve public access to green spaces?</li> </ul>	Population Human health Land use and landscape Air quality Noise Economy	People and communities
4. Conserve, protect and enhance biodiversity and geodiversity interests, including through safeguarding important sites, species and habitats.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cause harm or any deterioration in the condition of any designated sites?</li> <li>• Result in the loss of valuable habitats?</li> <li>• Deliver opportunities to restore or create semi-natural habitats?</li> <li>• Deliver net benefit for biodiversity and contribute to ecosystem resilience?</li> </ul>	Biodiversity Ground conditions Water environment	Environment
